Llyfrgell Genedlaethol Cymru

DARLITH FLYNYDDOL YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

Y Parchg Ddr D. Ben Rees

2il Tachwedd 2018

Camp Aneurin

Eleni yw'r cyfle i ddathlu 70 mlynedd ers cychwyn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a chydnabod gweledigaeth y gwleidydd Aneurin Bevan, oedd yn gyfrifol am greu y cyfan a'i gyflwyno trwy gyfarfodydd gyda meddygon a mudiadau amrywiol, trwy ddadleuon yn y Cabinet ac hyrwyddo'r mesur yn fedrus trwy'r Tŷ Cyffredin o Hydref 1945 i Orffennaf 1948. [1] Ef, mewn geiriau eraill, oedd y pensaer, a neb arall. Mae angen dadlennu'r hanes. Ar fore Sul 10 Mehefin 2018 yn y Gwasanaeth o Lundain soniodd Esgob Newydd Esgobaeth Llundain, a fu yn Brif Arweinydd y Nyrsus yn Lloegr, mai'r tri oedd yn gyfrifiol am y gamp oedd Ernest Bevin, Clement Attlee a Herbert Morrison. [2] Druan ohonom, ac nid hi yn unig sydd mor anwybodus o'r hanes. Yn mis Gorffennaf 1945 bu daeargryn gwleidyddol pan enillodd y Blaid Lafur

gyda mwyafrif mawr yr Etholiad Cyffredinol ar ôl chwe blynedd o ryfela di-dostur. Bu'n rhaid i'r Prif Weinidog, Winston Churchill, drosglwyddo'r dorch i'w ddirprwy Clement Attlee. Gwnaeth hwnnw weithred anhygoel o ddewr, sef dewis ei feirniad pennaf, Aneurin Bevan, i swydd gyfrifol Gweinidog Tai, Iechyd a Llywodraeth Leol. [3] Coflaid o gyfrifoldeb ar ysgwyddau gŵr nad oedd ganddo unrhyw brofiad o ddal swydd mewn Llywodraeth nag yn yr Wrthblaid ar wahan i fod yn Ysgrifennydd Preifat seneddol i George Lansbury am gyfnod byr. Nid rhyfedd i Hugh Dalton, y Canghellor, gredu fod Attlee wedi mynd yn ddidoreth. [4]

Roedd Bevan yn enwog am ymosod yn gyson ar wleidyddion pwysicaf y dydd, ar Winston Churchill, Lloyd George, Neville Chamberlain, Stanley Baldwin, Clement Attlee, Herbert Morrison ac Ernest Bevin. Ond yn ddistaw bach gobeithiai Attlee weld Bevan yn tyfu yn y swydd ac yr oedd yn barod i'w gefnogi fel gweinidog cydwybodol.[5] Bevan oedd yr ieuengaf yn y cabinet a'r hynaf oedd Arglwydd Christopher Addison, a fu yn Weinidog Iechyd Llywodraeth Lloyd George yn 1919. Gallai'r Prif Weinidog ddweud wrth ei frawd Tom mewn ychydig fisoedd mai Aneurin oedd y Gweinidog oedd yn perfformio orau ohonynt i gyd. Er bod Bevan yn meddu ar dafod finiog ac yn

medru bod yn gignoeth ar y meinciau cefn, rhaid cofio bod y cyn-lowr a adawodd yr ysgol yn un-ar-ddeg oed yn ŵr hynod o alluog. Ef oedd y deallusyn pennaf a feddai y Blaid Lafur; gallai sefyll ochr yn ochr â Tony Crosland, Richard Crossman, Harold Laskey, John Strachey, Harold Wilson, i enwi rhai o'i gyfoeswyr oedd yn edmygwyr mawr ohono.[6] Meddai ar holl rinweddau arweinydd pwerus ac ef oedd areithydd mwyaf unigryw y Senedd ar ôl marwolaeth Lloyd George. Yr oedd Ernest Bevin wedi cynghori Attlee i ddewis Bevan: ' He may be awkard sometimes but he's got his head screwed on right and he's got guts. He'll not let our people down.'

Dyna'r gwir [7]. Roedd ganddo ormod o atgofion o'i gartref gwerinol yn 32 a 7 Charles Street, Tredegar. [8] Yn 32 y'i ganwyd ar 15 Tachwedd 1897. Fel plant y cyfnod cafodd ddigon o'r afiechydon a'r clwy i'w lygad, *nystagmus*, a ddaeth o'r blynyddoedd a weithiodd dan ddaear, yr atal dweud diflas fel canlyniad i ymddygiadysbryd ciaidd ei brifathro yn Ysgol Elfennol Sirhowy. Collodd ei rieni David a Phoebe Bevan bedwar plentyn o'r deg a anwyd iddynt. Bu farw David John yn wyth mlwydd oed, a Herbert Luther yn ei blentyndod. Collwyd Idris ar ei enedigaeth a Margaret May yn mlodau ei dyddiau. Llwyddodd y ddwy chwaer arall Blodwen ac Arianwen i oresgyn y

clefydau mynych. Aeth y brodyr, William, Iorweth ac Aneurin i weithio yn y pwll glo gyda'u tad a'u hewythr. Yr oedd plant yng Nghymru yn marw o'u clefydau yn mhlentydod Aneurin. Claddodd y Parchedig Esger James, Gweinidog yr Annibynwyr yn Nantyffyllon, 116 o blant mewn deuddeg mlynedd o'r gymuned honno - llawer o'r ddarfodigaeth. [9] Dyna'r clefyd coch (*diptheria*) a chollid ar gyfartaledd tua hanner miliwn mewn blwyddyn o'r clefyd hwnnw. Deuai haint y *polio* yn gyson. Yn 1947, er enghraifft, bu farw pum cant o 'r afiechyd. Yr oedd y ddarfodedigaeth yn gyffredin yn y fro Gymraeg. A bu ei dad farw o lwch y lofa. Yr oedd ef yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar yn 1890. Byddai pob aelod o'r gymdeithas yn cyfranu tair ceiniog o bob punt o'u henillion tuag at yr anghenion. Yn nes ymlaen croesawyd pobl y dref, siopwyr a bobl busnesau, i ymuno, fel bod pawb bron yn y dref yn perthyn i'r cynllun, o leiaf 95 y cant, pan oedd y Dr A. J. Cronin yn feddyg yno ynghanol y dau ddegau. A chofier fod nofel A. J. Cronin, *The Citadel*, a gyhoeddwyd yn 1937 yn feirniadol dros ben o'r meddygon a'r gwasanaeth iechyd oedd yn bodoli a bu'r cyfan yn symbyliad i Aneurin Bevan yn ei weledigaeth. Byddai'r Gymdeithas yn Nhredegar yn cyflogi meddygon, fferyllyddion, deintyddion, nyrsus ac ati. [10]

Sefydlwyd Ysbyty yno yn 1904 (ac fe'i caewyd yn 2010), yn cynnwys 58 o welyau mewn dwy ward, a daeth Bevan yn Gadeirydd yn 1929/30 ynghanol y dirwasgiad enbydus. Daeth Bevan ei hun yn weithgar yn y gymdeithas, yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a chael ei swcro gan Walter Conway, Ysgrifennydd y Gymdeithas,am flynyddoedd lawer. Yn ŵr ifanc yn 1928 llwyddodd i ennill yr enwebiad o flaen yr Aelod Seneddol lleol Evan Davies .[11] Daeth yn gynrychiolydd etholaeth Glyn Ebwy ei hun yn Etholiad 1929, a bu'n brwydro yn galed am ei weledigaeth o gael cyfiawnder a gwasanaeth meddygol i weithwyr Prydain a'u teuluoedd. Croesawodd benderfyniad y Blaid Lafur yn y Cynadleddau Blynyddol yn 1932 a 1934 i weithio am Wasanaeth Iechyd Cenedlaethol gan fod yr angen yn fawr. Yn ystod yr Ail ryfel Byd daeth y Gwasanaeth Iechyd yn un o'r blaenoriaethau. Bu cyhoedddi Adroddiad William Beveridge yn 1942 fel 'manna yn disgyn o'r nefoedd'. Gwerthwyd yn ddiymdroi 635 o filoedd o gopïau o'r Adroddiad. Nid oedd Churchill nac Attlee yn frwdfrydig dros yr adroddiad am na allent ddioddef yr awdur, Syr William Beveridge. [12] Disgrifiodd Bevan ef fel 'efengylydd cymdeithasol o'r hen ysgol Ryddfrydol'.[13] Gweithiodd Beveridge mor bell yn ôl â dyddiau Lloyd George i sefydlu darpariaeth ar gyfer y claf yn

neddf 1911. Ond nid adroddiad Beveridge yn unig a welodd olau dydd yn ystod y rhyfel. Yr oedd y Blaid Lafur wedi mynegi eu cefnogaeth yn y ddogfen *National Service for Health* a gyhoeddwyd Ebrill 1943. [14] Paratodd Llywodraeth y Coalisiwn Bapur Gwyn , a daeth y Gweinidog Iechyd, Henry Willink, ag awgrymiadau eraill a baratowyd gan weision sifil y Llywodraeth. Ond cyn iddo gael amser i wneud dim byd, trosglwyddyd y cyfrifoldeb i ddwylo gŵr o argyhoeddiadau sosialaidd, gwleidydd oedd yn barod i fentro, dyn dewr, pan oedd angen dewrder, adeiladydd y Gwasanaeth a chynllunydd y Wladwriaeth Les. Credai newn cydraddoldeb dynion a merched ac am hynny, yr oedd am iddynt gael y gofal gorau a mwynhau bywyd cyfoethocach nag a welwyd yng nghymoedd Sir Forgannwg a Sir Fynwy yn nyddiau ei lecyndod. Yr hyn oedd ganddo mewn golwg oedd ymestyn y gwasanaeth i'r gymdeithas gyfan. Buan y gwelwyd y newid. Daeth y gweision sifil i ddeall fod y Gweinidog newydd, Bevan, yn llawer mwy penderfynol na'r rhai a aeth o'i flaen. Tueddai'r gweision sifil ifanc i'w gefnogi a'r rhai hyn oedd yng ngwersylll Willink i gymrodeddu a diogelu statws yr ysbytai gwirfoddol. Rhybuddiwyd Bevan gan ei Ysgrifennydd Parhaol i beidio ag anwybyddu yr hyn a wnaed gan ei ragflaenydd. Anwybyddodd ei gyngor am ei fod ef yn

credu bod yr awdurdodau lleol a fu wrth y dasg o ddyddiau Lloyd George yn rhy ddiymadferth i reoli yr Ysbytai. Fe aeth i'w ffordd ei hun i ystyried gwladoli yr Ysbytai a dod â hwy oll dan un awdurdod, a'r Gweinidog yn meddu y gair olaf.

Gwladolwyd y Diwydiant Glo yn 1947 a holl Ysbytai y Deyrnas Unedig yn 1948. O fewn ychydig wythnosau llwyddodd ef a'i gynghorwyr i ddarparu cynllun, a gydag ychydig o newidiadau o fewn blwyddyn cydnabyddid y cyfan fel y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Byddai tair rhan i'r Gwasanaeth hwn. Yn gyntaf yr holl Ysbytai gyda 14 o Fyrddau Rhanbarthol ar gyfer Lloegr a Chymru i'w gweinyddu ac oddi tanynt 400 o bwyllgorau i ofalu am yr Ysbytai lleol. Byrddau o Lywodraethwyr oedd i drefnu yr Ysbytai Hyfforddi. Yn ail gofal y Meddygon Teulu. Contractwyr annibynnol oeddynt hwy ac yn cael eu talu am bob person oedd ar eu rhestr. Dyna oedd y drefn i'r deintyddion, yr optegwyr a'r fferyllwyr. Yn drydydd Gwasanaeth i'r Cymunedau, yn bennaf ar gyfer y fam a'r genedigaethau a magu plant a chadw llygad ar yr henoed a'r anabl, gan roddi lle dyladwy i'r bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gwasanaeth ambiwlans a'r amgylchedd.

Bu hi yn frwydr galed i wireddu cynllun o'r fath, a hynny ar bedwar ffrynt. Y ffrynt cyntaf oedd y sosialwyr ar y chwith a gredai y dylai Aneurin wrando arnynt hwy yn fwy nag ar neb arall. Dyna Gymdeithas Sosialwyr Meddygol.[15] Hwy a gymerodd y cyfrifoldeb yn 1930 oddi ar y *State Medical Service Association* a sefydlwyd mor bell yn ol yn 1912 gan feddyg o Lerpwl, Dr Benjamin Moore, ac ef oedd y cyntaf i ddefnyddio'r teitl Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (NHS), a hynny yn 1911. Yr oedd cryn ddwsin o feddygon yn Aelodau Seneddol o fewn y Blaid Lafur erbyn 1945 a phob un a'i fewnbwn, ond ceid yn yr ysbytai feddygon o'r un safbwynt. Y pwysicaf ohonynt oedd Dr David Stark Murray, meddyg yn Ysbyty Kingston . Bu ef yn ddraenen yn ystlys Bevan. Galwodd Bevan ef yn benboethyn ac eithafwr y mudiad. Dywedai Murray na ddylai meddyg gael tâl gan y claf pa mor gyfoethog bynnag y bo [16.] Yr oedd ambell un o'r Aelodau Seneddol a berthynai i Gymdeithas Sosialaidd y Meddygon yn credu mai hwy a ddylai fod yn Weinidog Iechyd. Felly y meddyliai Dr Edith Sumerskill. Sefydlwyd gan rai o ffrindiau Bevan, fel Ian Mikardo a Barbara Castle, gymdeithas o'r enw *Keep Left* yn 1947 ond gwrthododd Aneurin wneud dim byd â hwy o ran ei weledigaeth eirias. Credai yr Undebau Llafur y dylent hwy gael ffafraeth

gyda'r Byrddau a fyddai yn cael eu sefydlu ond eto nid oedd y Gweinidog yn barod o gwbl i gytuno y dylai hynny ddigwydd. Bu'n rhaid i'r cymdeithasau hyn ar y chwith gwleidyddol o'r Blaid Gomiwynyddol i'r cymdeithasau aros yn y ciw fel pawb arall. Yr oedd Aneurin am wneud ei ymchwil ei hun, sef ymweld â meddygon profiadol, galw mewn ysbytai oedd yn arbenigo, dysgu oddi wrth arweinwyr y gwahanol Golegau Brenhinol heb anghofio meddygon y Brenin yn Harley Street, dau Gymro, fel mae'n digwydd, sef Syr Dan Davies, mab i weinidog Presbyteraidd ym Mhontycymer a wrthwynebai'r cynllun, er mai ef oedd meddyg personol y Gweinidog, gan gredu na ddylai'r Llywodraeth ymyrryd yn annibyniaeth glinigol y meddyg. [17] Cymro arall o'r un safbwynt oedd Syr Horace Evans, mab y cerddor o Lerpwl Harri Evans.[18] Ac o ran pobl y chwith yr oedd ganddo yn ei gartref ei hun, ferch lawn syniadau o'r enw Jennie Lee, yr un a fu yn gofalu amdano gyda'i mam ers 1934. Galwodd D. W. T. Bruce, ei Ysgrifennydd Preifat Seneddol, hi yn 'sosialydd pennaf yr ugeinfed ganrif'; ac hefyd ei ffrind mawr, Archie Lush o Dredegar, a ddaeth yn enw pwysig yn hanes meddygaeth yng Nghymru. [19]

Yr ail ffrynt oedd y Blaid Geidwadol. Gwrthwynebodd y Blaid Geidwadol ddadleuon Bevan yn y Tŷ Cyffredin o 1945 i 1948. Yr oedd y

Ceidwadwyr yn torri ei galon, gan eu bod yn brwydro yn ei erbyn oherwydd nad oeddent yn cytuno â'i weledigaeth. Hyd yn oed yn nhrydydd darlleniad y Mesur, mynnodd Churchill i'w aelodau seneddol wrthwynebu'r cynllun. Cafodd Aneurin wrthwynebiad ffyrnig ond gallai'r Ceidwadwyr fod wedi gwrthwynebu yn galetach, pe bai ganddynt bobl debyg i'r Arglwydd Hoder o'r Tŷ Arglwyddi yn y Tŷ Cyffredin. Galwodd ei fab, a luniodd ei gofiant, ef yn 'athrylith bach'. Gwrthwynebodd Willink gynllun Bevan ar y tir nad oedd yn dilyn y Papur Gwyn a baratowyd ganddo ef a'i was sifil, John Hawton. Aeth Bevan â Phapur Gwyn adref gydag ef un penwythnos. Dychwelodd fore Llun i ddweud nad oedd o unrhyw werth iddo. Taflodd ef yn ddi-seremoni i'r fasged sbwriel. Ond bu ei edmygedd o Syr Wilson Jameson y Prif Feddyg yn llawer mwy canmoladwy.[20]

Ni fu'r Rhydfrydwyr, llond dwrn ohonynt, yn boendod iddo o gwbl. Yn wir, yr oedd yr hyn a sefydlodd Lloyd George yn 1911 yn dal mewn bodolaeth yn 1948, pan ddaeth y ddeddf Gwasanaeth Iechyd i fodolaeth a dyna'r adeg y dilewyd y Ddeddf Inswirans Cenedlaethol 1911.[21] Tueddir i gymharu Lloyd George â Bevan am fod y ddau yn Gymry, yn Anghydffurfwyr, yn areithwyr hwyliog, ond yr oedd cryn dipyn o wahaniaeth. Nid oedd

agwedd meddwl athronyddol yn Lloyd George fel yr oedd yn Aneurin Bevan. Yr hyn a wnaeth Lloyd George oedd sefydlu Gwasanaeth Iechyd i boblogaeth yswiriedig (tua 45 y cant o'r boblogaeth). Yr oedd y gweddill yn dibynnu ar gardod yr elusennau, ffrindiau, teuluoedd, neu fynd heb driniaeth. Yr hyn a wnaeth Bevan oedd ymestyn y gwasanaeth nid i hanner y boblogaeth ond i'r holl boblogaeth. Dyna'r gwahaniaeth. Dyna fyd o wahaniaeth. Y gymwynas fawr a wnaeth oedd gofalu bod y Gwasanaeth Iechyd yn agored ac yn rhad i'r gymdeithas gyfan. Ie, i bawb, hen ac ieuanc, y Celtiaid, y Saeson, pob un o'r lleiafrifoedd, yr anabl a'r gwan eu meddwl. Yr oedd gan Bevan feddwl mawr o Lloyd George a llefarodd yn gaboledig pan glywodd am farwolaeth y dewin o Ddwyfor ac yr oedd ei ferch Megan yn dal i gynrychioli Môn ac yn gryn ffrindiau gydag Aneurin. Yr oedd yr un radicaliaeth yn ei gwythiennau.

Y trydydd ffrynt oedd yn ei wrthwynebu oedd ei bobl ei hun, cymrodyr o'r Blaid Lafur o fewn y Cabinet, oedd i fod i gredu mewn brawdoliaeth, ond yn milwrio yn ei erbyn gydag holl rym eu tafodau. Nid oedd ei gynllun yn dderbyniol o gwbl. Y gelyn pennaf oedd Herbert Morrison, Arglwydd Llywydd y Cyngor a'r Tŷ Cyffredin a Dirprwy Brif Weinidog.[22] Ceid eraill yn gwrthwynebu hefyd, fel Hugh Dalton a Chuter Ede. Gwelodd Morrison yn

1930 Gyngor Sir Llundain yn cymryd drosodd 140 o ysbytai ac yn ei dyb ef, yr awdurdodau lleol a ddylai fod yn llywio'r gwasanaeth. Dyma eiriau sarhaus Morrison am Aneurin, 'Grym, dyna'r cwbl y mae ef ei angen, grym iddo ef ei hun ac nid yw'n hidio beth a ddigwydd i'r Blaid Lafur cyhyd ag y caiff ef rym i'w ddwylo'. Ond yn ffodus i Aneurin nid oedd Morrison yn ffefryn o gwbl gan nifer o geffylau blaen y Cabinet.[23] Yr oedd Ernest Bevin a Morrison yn casáu ei gilydd â chas perffaith. Ac ar ddiwedd ei fywyd, dymuniad Bevin oedd fod Bevan yn ei ddilyn fel gweinidog tramor yn hytrach na Morrison. Dywedodd, gan anghofio yr <H> yn enw ei elyn: 'I'd sooner have had Nye than 'Erbert'.[24]

Y gwir oedd fod y Cabinet talentog yng ngyddfau ei gilydd. Galwodd Harold Wilson, y pennaf ohonynt, sef Bevan, Bevin, Syr Stafford Cripps, Hugh Dalton a Morrison yn 'five head-strong horses'.[25] Ond derbyniodd Bevan gymorth amhrisiadwy oddi wrth yr Arglwydd Christopher Addison. Ni allai Addison wneud yr hyn a wnaeth dros Lloyd George, ond fe lwyddodd yn y Cabinet i wireddu breuddwyd y Cymro, Aneurin Bevan, o gael gofal meddygol i bawb, nid yn unig ar gyfer y rhai oedd wedi eu hinswirio. Rhoddodd ei gefnogaeth hwb i Bevan a chalonogi rhai oedd yn eistedd ar y ffens i ymateb yn bositif. Yr oedd Addison ar delerau da gyda Attlee, ef oedd

unig ffrind y Prif Weinidog yn y Cabinet.[26] Gyda phersonoliaethau mor alluog a chymhleth ac eiddigeddus o'i gilydd, y canolwr a'r cymodwr bob amser oedd Clement Attleee. Nid oedd gan Attlee argyhoeddiadau cryfion ar y cynllun; ei dasg ef oedd cadw'r ddysgl yn wastad.[27] Yr oedd Morrison yn amddiffyn hyd eithaf ei allu ysbytai yr awdurdodau lleol ac yn arbennig yr holl ysbytai oedd dan Gyngor Sir Llundain (LCC), lle y bu ef yn brif ddyn yn ei flynyddoedd cynnar.

Deallai Attlee safbwyntiau Morrison a Bevan. Cyn 1945 yr oedd Attlee wedi cadw hyd braich oddi wrth Bevan. Yn wir, pledleisiodd ef a Morrison i ddiswyddo Bevan o'r Blaid Lafur seneddol yn 1939, ynghyd â Stafford Cripps a George Strauss. [28] Yn y drafodaeth dreiddgar olaf yn y Cabinet enillodd Bevan y frwydr am fod Attlee o'i blaid. Dyma'r foment bwysig dyngedfennol. Yr oedd holl ysbytai Prydain i'w gwladoli, ond ni laesodd Morrison ei wrthwynebiad am eiliad. Aeth ati i gymell ei gefnogwyr i lunio llythron, i'r *Times* yn bennaf, a phrotestio a threfnu dirprwyaethau. Ond ni adawodd Bevan iddynt gael eu dymuniad. Llwyddodd i gael cefnogaeth Cyngor Sirol Llundain, pan ddaeth Isaac James Hayward (1884-1976), Cymro o Flaenafon a chyn lowr, yn Arweinydd y Cyngor yn 1947 [29]. Hyd yn oed ar ôl llwyddiant

sefydlu'r Cynllun, byddai Morrison yn dal i weld bai fan hyn a fan draw ar y trefniadau. Ond ni chollodd Morrison ei frwydr yn llwyr, gan i'r awdurdodau lleol gael yr hawl i weithredu llu o gynlluniau iechyd cyhoeddus. Gwladoli yr holl ysbytai, er hynny, oedd un o benderfyniadau mwyaf blaengar a gymerodd le erioed yn Ewrop yn yr ugeinfed ganrif. [31] Gwyddai Bevan fod llwyddiant y Gwasanaeth Iechyd yn mynd i ddibynu, nid ar y gwleidyddion na'r meddygon yn unig, ond yn arbennig ar y nyrsys a'r holl staff cynorthwyol. [32] Sefydlodd y Gweinidog grwpiau o nyrsys o dan gadeiryddiaeth Syr Robert Wood. Yr oedd gormod yn gadael yr alwedigaeth - y gwaith yn feichus a rhwystredigaethau cynyddol. Yr oedd Bevan yn gwahodd ymateb ar y ffordd i riwcritio, hyfforddi, trafod yr angen, a sut y gellid atal y nyrsus rhag adael yr alwedigaeth. Bu beirniadu ar Goleg Brenhinol y Nyrsus am anghofio diffinio eu galwedigaeth. Hwy oedd agosaf at y claf. Pobl ymroddedig oeddynt, gan fod Florence Nightingale wedi synio bron gan mlynedd yn gynt am y dasg o ofalu am y claf a'r clwyfedig fel galwedigaeth. Disgwylid iddynt yn 1947 fyw yn hostelau y nyrsus. Ystyrid *Matron* pob ysbyty yn berson bwerus. Disgwylid i'r iwifform fod yn lân, y sidiau yn sgleinio, gwallt yn ei le, cap bychan ar eu pennau a dim minlliw ar

eu gwefusau. Er hyn i gyd, ni roddodd Bevan y cyflogau a ddylid iddynt, na rhoddi lle i gynrychiolwyr o'u plith ar y byrddau lleol a rhanbarthol.

Y pedwerydd ffrynt oedd y cymdeithasau a'r Colegau Brenhinol a'u harweinwyr pwysig, meddygon pwerus oedd yn rhan annatod o'r Sefydliad. Rhaid cyfeirio yn awr at Gymdeithas Feddygol Prydain a adnabyddir yn Gymraeg a Saesneg fel y BMA. Dyma ddosbarth elitaidd, meddygon oedd yn medru gwerthu a phrynu eu practis, ac yn cystadlu mewn ardaloedd trefol am gwsmeriaid. Nid galwedigaeth dlawd mohoni, ond rhaid cofio bod y meddygon hyn wedi gorfod talu am eu hyfforddiant ac wedi bod wrthi am chwe blynedd yn adrannau meddygol y Prifysgolion i ennill gradd a chymwysterau. Busnes oedd yr alwedigaeth yn y pendraw i gymharu â galwedigaeth Gweinidog yr Efengyl neu Offeiriad Anglicanaidd a Phabyddol. Yr oedd y meddyg a'r gweinidog yn derbyn parch aruthrol yn y cymunedau. Nid oedd Bevan yn medru dygymod â'r sustem fel sosialydd ac un o blant y maes glo. Cythruddwyd ef fod y meddygon trwy'r BMA yn amddiffyn yr arferiad o brynu a gwerthu yr alwedigaeth. Pleidleisiodd y BMA o 229 i 13 i gadw'r busnes mewn bodolaeth. Ni ildiodd Bevan fodfedd. Soniodd wrth drafod Deddf y Gwasanaeth Iechyd yn 1946 'na allai unrhyw feddyg werthu

yr ewyllys da nac unryw ran o'r ewyllys da o'i bractis meddygol'. [33] Ond ofer y datganiad. Bu yn rhaid rhyngu ymlaen hyd 1976 i weld yr arferiad yn darfod o'r tir.

Yr oedd y gwrthdaro rhwng Bevan a'r Pwyllgor Trafodaethau a'r BMA yn wrthdaro rhwng sefydliad oedd yn llawn o bobl geidwadol dosbarth canol Eingl-Sacsonaidd a Chymro huawdl, hyderus gydag acen Gymreig a nodweddion emosiynol Ymneilltuwyr Cymreig ond a wyddai gystal â neb lle y safai fel gwerinwr o sosialydd. Ymneilltuwr ydoedd ac nid Marcsydd ac o'r cefndir hwnnw y cafodd ei ddicter a'i ynni a'i ymgyrch am fyd gwell.[34] Daeth democratiaeth Gymreig o Ymneilltuaeth a Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif, a magwyd ugeiniau lawer o'r hyn a alwaf yn 'weinidogion gwleidyddol'. Yr oedd y Blaid Lafur yng Nghymru yn meddu ar ugeiniau lawer ohonynt, a daeth Bevan i'w hadnabod yn ei filltir sgwar. Y Methodist enwog o Holborn, Dr Donald Soper (Arglwydd yn ddiweddarach) a fu yng ngofal ei angladd yn Waun Pound uwchben bro ei febyd yn Nhredegar ac Aneurin a lansiodd ar ei newydd wedd yn 1960 fudiad y Sosialwyr Cristnogol. Yr oedd y Blaid Ryddfrydol yn meddu ar ugeiniau o weinidogion gwleidyddol yng Nghymru ac yr oedd hynny yn wir am bob plaid wleidyddol. Cafodd

diwinyddiaeth R. J. Campbell ac efengyl gymdeithasol Ymneilltuaeth Gymreig a neges eirias Keir Hardie, Aelod Seneddol Merthyr Tudful, groeso yng nghartref David Bevan yn Nhredegar.

Ac etifedd y cyfan oedd y mab Aneurin, yr ymneilltuwr pennaf ohonynt i gyd fel teulu; radical anghydffurfiol, rebel gofalus a gadwodd at yr egwyddor fod y Gwasanaeth Iechyd i'w ariannu gan y trethdalwr ac nid o unrhyw ffynhonell arall. Dyna'r egwyddor. Cytunai yr Arglwydd Moran, Llywydd Coleg y Ffisegwyr ag ef. [35] Daeth yn ffrind iddo, yn barod i'w gynghori, a chytunai y ddau ar bron bob cwestiwn. Ond yr oedd gan Moran a Bevan eu gwrthwynebydd ym mherson yr Arglwydd Thomas Horder [36.] Daeth Horder yn un o arweinyddion yr wrthblaid answyddogol; a'r llall oedd Dr Charles Hill o'r BMA. Trwy yr anghytuno daeth cryn lawer o atgasedd i'r golwg erbyn gwanwyn 1947. Yr oedd y cyflog arfaethedig yn broblem, gan fod y meddygon yn ofni mai gweision y Wladwriaeth Les fyddent ar ddiwedd y dydd. Bu'r methiant i drafod cytunebau y bartneriaeth yn amlwg. Bu'n rhaid i Bevan ildio. Gwnaeth ei orau glas i ddeall y proffesiwn oedd yn anghytuno ag ef. Mae'n amheus gan rai haneswyr a wnaeth Bevan lwyddo i ddeall meddwl, safbwyntiau ac agwedd y meddygon. Iddo ef y gwasanaeth Iechyd

Cenedlaethol oedd canolbwynt gwleidyddiaeth. . Dyna ymateb pobl fel Bevan a Jim Griffiths a welodd hunllef y dau a'r tri degau. [37] Dangosodd gryn fawredd a'i fod yn llai dogmatig na'r rhai a'i feirniadai yn ddi-feddwl. I Bevan yr oedd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol i greu awyrgylch o ddiogelwch a serenedd trwy'r wlad. Roedd i helpu teuluoedd yng nghanol eu gofidiau a'u hiselder amgylchiadau a'u hafiechyd parhaus mor aml . Gwyddai'r Gweinidog pa mor gostus oedd y triniaethau. Byddai un person gyda'r dicáu ac yn gorfod wynebu ar driniaeth yn gorfod talu mil o bunnoedd o'r diwrnod y deuai i'r Sanitorium hyd y dydd y deuai allan rai misoedd yn ddiweddarach. Ei genhadaeth ef oedd newid y sefyllfa. Dyfeisiodd gynllun a oedd yng ngeiriau Geoffrey Rivett 'yn gynnyrch athrylith.'[38]

Ceisiodd Aneurin ddelio mor barchus ag y medrai gyda'r arweinwyr meddygol oedd bron yn ei chael hi yn rhy anodd i gymrodeddu. Ac yn y diwedd y Gweinidog Iechyd tanllyd oedd yr un a ildiodd. Pwysleisiodd a siarsodd yr Arglwydd Moran ef fod yn rhaid iddo roddi rhyddid i'r llawfeddygon i drin cleifion preifat a bod yng ngofal gwelyau preifat o fewn yr Ysbytai. Yn ei gyfrol ddifyr a phwysig *In Place of Fear*, a gyhoeddwyd yn 1952, cydnabu Bevan fod caniatáu hynny yn wendid ar ei ran a 'gwelodd hynny o'r

cychwyn'. [39] Beirniadwyd Bevan gan Gymdeithas Meddygol y Sosialwyr (SMA) am iddo blesio yr *elite* meddygol, yr ymgynghorwyr a'r llawfeddygon yn bennaf. Daliwn i gofio ei ymadrodd: 'Bu'n rhaid imi stwffio eu cegau ag aur.'[40] Y ddelfryd i'r Arglwydd Moran oedd cael tri dosbarth o feddygon yn y Gwasanaeth Iechyd. Ar ben y rhestr athrawon llawn amser oedd yn feddygon galluog ac yn athrawon a darlithwyr Adran Meddygaeth y Prifysgolion ac yn gysylltiedig â'r ysbytai cyfagos a gyfrifid yn ysbytai addysgol. Yn ail meddygon a llawfeddygon a ffisegwyr yr ysbytai, ac yna yn drydydd meddygon teulu.[41] Caniataodd Bevan i feddygon ar lawr gwlad ryddid nad oedd ei ragflaenydd Torïaidd ddim yn barod i'w gynnig, sef eu bod yn hunangyflogedig ac yn derbyn eu tal yn helaeth trwy dreth y pen. Ond nid oedd Cymdeithas Feddygol Prydain yn gymdeithas oedd wedi arfer ildio i unrhyw Weinidog Iechyd. Bu hi yn ystyfnifg am chwarter canrif, ac nid oeddynt am newid eu hagwedd yn erbyn gŵr a elwid yn Fuhrer a Tito o Tonypandy, er mae yn Nhredegar y ganwyd ac a magwyd Aneurin. Yr oedd yr ymgyrch yn cynhyrfu'r dyfroedd, creu cyhoeddusrwydd y byddai'n well gan y llywodraeth Lafur fod hebddo ac yn fêl ar fysedd y newyddiadurwyr o'r *Daily Express* a'r *Daily Mail* oedd yn awyddus i weld Bevan o bawb yn gwneud cam

gwag. Gyda'r holl gymrodeddu creodd Bevan Wasanaeth Iechyd oedd yn llawer llai derbyniol iddo mewn gwirionedd.

I'r Toriaid yr oedd ei lwyddiant i greu cynllun iechyd yn ddirgelwch llwyr ond i'r mwyafrif o gefnogwyr Bevan yr oedd hi'n hawdd deall yr hyn a ddigwyddodd. Bu'n rhaid iddo ildio yn gyson er mwyn gwarchod yr egwyddor bwysicaf, sef fod y gwasanaeth iechyd yn ei holl amrywiaeth am ddim i bob person. Dim ond y bobl oedd yn talu treth incwm oedd yn cynnal y cynllun. Gwrthwynebai gynllun oedd yn dibynnu ar yswiriant neu ar haelioni cyfoethogion, busnesau ac elusennau. Argyhoeddodd Aneurin y cyhoedd mai dyma'r sustem orau yn y byd, ac nid oedd neb tebyg iddo pan ddeuai'r hwyl Gymreig o'i blaid. Gwyddai yn y gwrthdaro rhwng y cyhoedd a'r meddygon, mai'r cyhoedd a fyddai yn ennill bob tro os cant eu harwain mewn dewrder. Dywedodd, 'Y mae hawliau (honedig) meddygon mewn grwp cymdeithasol arbennig yn codi gwrychyn y rhan fwyaf o'r boblogaeth'[42]. Gofalodd am Ysbytai arbenigol fel Great Ormond Street yn Llundain, ysbytai fel Wimbledon yn arbenigo mewn llawfeddygaeth gosmetig, a Stoke Mandeville ar gyfer damweiniau i'r cefn. Yn Neddf 1946 gofalodd uno ysbytai arbenigol oedd yn debyg i'w gilydd a rhoddi iddynt Fyrddau Llywodraethol ar wahan.

Gofalodd am ysbyta'r meddwl, ac yn arbennig ysbytai a fu yn rhan o gynlluniau awdurdodau lleol a 'r mudiadau gwirfoddol. Yn anffodus nid oedd arian i gael i adeiladu cannoedd o ysbytai newydd (yn wir ni adeiladwyd llawer o Ysbytai o 1945 i 1948) na'r canolfannau iechyd a ddylai fod yn addurn i'r Gwasanaeth. Ni allai Dr David Stark Murray faddau i Bevan am iddo fethu â sefydlu canolfannau iechyd. Bu'n rhaid aros chwe blynedd cyn gweld un o'r canolfannau hyn mewn bodolaeth. A chofier ei fod ef nid yn unig yn Weinidog Iechyd ond hefyd yn Weinidog Tai, a bu yn weithgar yn y maes hwnnw hefyd. Adeiladodd ar raddfa eang gan fod yr angen mor fawr. Ond nid oedd methiant yn ei hanes; yr hyn a wnaeth oedd bod yn realydd.

Sefydlodd Wasanaeth Cenedlaethol Trallwysiad Gwaed yn 1946. Gwelodd fod Prydain ar ei hôl hi mewn ymchwil meddygol a gofalodd fod hynny yn newid. Yn 1939 dim ond 6 o'r 12 Ysgol Meddygol yn Llundain oedd yn meddu ar Athro Clinigol mewn unrhyw ddisgyblaeth. Bu newid mawr ym mhob maes meddygol yn y pum mlynedd y bu wrth y llyw. Y meddygon oedd yr ail ran o'r gwasanaeth a sylweddolodd Bevan fod ganddo gymaint o bobl gwbl athrylithgar yn y dinsasoedd, rhai fel Syr Henry Cohen a Howell Hughes yn Lerpwl, yn ei gefnogi gant y cant .[43] Cyfarfu gyda Thomas Kilner yn

Rhydychen, Francis Avery Jones yn Ysbyty Ganolog Middlesex, Thomas Lewis y cardiolegydd o Gymro yn Ysbyty Coleg y Brifysgol Llundain a'l waith arloesol yn datblygu yr *electrocardiogram*, Geoffrey Jefferson ym Manceinion.[44] Yna yn drydydd pwysleisiodd werth iechyd y cyhoedd, gan gofio bod hynny yn golygu sbectol am ddim, tynnu dannedd am ddim a pharaoi offer clyw i'r byddariaid. I'r Gweinidog y slogan oedd: 'Dim ond y gorau i gleifion yn ein hysbytai'.[45] Cyn Aneurin Bevan nid oedd neb wedi dychmygu na meddwl y byddai ysbytai'r meddwl yn dod yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Yr oedd hi yn broblem anferth, gyda rhai o'r ysbytai hynny yn meddu ar dros ddwy fil o welyau.

Mynnodd Bevan fod y Blaid Lafur i gael y clod am ei waith a'r gwasanaeth a greodd. Yr oedd Attlee yn barod i roddi'r argraff mewn darllediad ar y radio yn 1948 fod y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn fuddgoliaeth Prydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn hytach na gwaith plaid na llywodraeth arbennig. Ond gwrthwynebodd Aneurin y safbwynt anghywir hwnnw. Llafur oedd yn gyfrifol am greu y gwasanaeth, ac yntau y pensaer a'r ysgogydd. Nid oedd ond ychydig eraill fel Syr Wilson Jameson, Swyddog Iechyd Cenedlaethol, Arglwydd Moran, Yr Arglwydd Christopher Addison,

Clement Attlee yn haeddu y gwrogaeth. A daeth y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn rhan o fytholeg Llafur ac fe ddefnyddir sgloganau ar y llinellau hynny o un etholiad Cyffredinol i'r llall byth oddi ar hynny. Fel y dywedodd Michael Portillo mewn darlith ugain mlynedd yn ôl:

> That the parties are so coy in speaking about health is mainly down to Nye Bevan. He made the NHS sacred and untouchable. He may have freed the patients from medical bills, but he has locked the politician in perennial dread of change.[46]

Gwir a ddywedodd. Ond bu'n rhaid iddo frwydro yn galed am ei weledigaeth. Yr oedd y meddygon, yn arbennig y meddygon teulu braf eu byd o Dde-Ddwyrain Lloegr, yn benstiff fel asynod ac yn ceisio troi'r drol a thra-arglwyddiaethu ar y cyn löwr o Ddyffryn Sirhowy. Cafodd Bevan ei ddwrdiio a'i lambastio ond nid oedd ef ei hun yn ddi-fai chwaith. Yn Chwefror1948 ar ôl dwy flynedd anodd, methodd Bevan â disgyblu ei dafod ac fe alwodd y BMA yn 'grwp bychan o bobl wenwynig wleidyddol'. Ond cafodd gymorth Arglwydd Moran a Webb-Johnson i adnewyddu y berthynas. Daeth y rhyfela i ben pan ddangosodd ei fod yn barod i gymroddedu ymhellach. Setlwyd ar gydnabyddiaeth o £300, a hynny am dair blynedd, i'r meddygon i ddechrau [47]. Nid oedd hynny yn orfodol. Caniatodd ryddid llawn iddynt i gael yr hawl i

gyhoeddi eu barn ar weinyddiaeth y gwasanaeth. Y gwir oedd nad oedd bron dim byd yn mynd i blesio meddygon y BMA, fel Dr Guy Dain o Birmingham na Dr Charles Hill, hyd i Aneurin gau ei lygaid. Yr adeg honno galwodd Dr Hill, y meddyg radio enwog, Aneurin yn athrylith. [48] Yr oedd y cyhoedd wedi eu darbwyllo erbyn haf 1948. Cofrestrodd dros 93 y cant o'r boblogaeth ar gyfer defnyddio y gwasanaeth[49]. Ni lwyddodd er hynny i gadw ffioedd yr ymgynghorwyr i swm arbennig, Ac eto, er gwaethaf y cyfan cadwyd hanfodion y cynllun.[50] Ni allwn faentumio fod y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a ddaeth i fodolaeth 70 mlynedd yn ôl yn berffaith o bell ffordd. Yr oedd strwythur y gwasanaeth yn drafferthus ac yn anhylaw o'r cychwyn. Dywedodd Dr John M. Lancaster,

'Yr oedd gan y gwasanaeth fiwrocratiaeth glogyrnaidd. Ac yr oedd yr arian a oedd ar gael yn ddieithriad yn annigonol.[51]

Yr oedd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn bwll diwaelod ac yn 1949 cyfeiriodd Bevan fod yr amcangyfrif o £228 miliwn o bunnau yn llawer rhy fach, a bod yn rhaid ychwanegu swm o £53 miliwn arall tuag ato.[52] Hon fu'r stori byth oddi ar hynny. Ond awr fawr Bevan oedd 5 Gorffennaf 1948 pan ddaeth y Gwasanaeth Iechyd i fodolaeth. Ond, yn anffodus ac yn

ddiangen, taflodd Bevan ddŵr oer ar y dathlu trwy lefaru y brawddegau cignoeth isod mewn cyfarfod cyhoeddus yn Manceinion y noson cynt:

> Ni all unrhyw faint o berswad ddileu o'm calon atgasedd dwfn tanbaid tuag at y Blaid Geidwadol a fu'n gyfrifol am wthio'r profiadau hynny arnaf. Cyn belled ag yr wyf yn bod, y maent yn is na bawiach. Condemniasant filiynau o bobl o'r radd flaenaf i fywyd o hanner newyn.[53]

Aeth y Wasg a'r Toriaid yn wyllt ar ôl clywed y cyfeiriad at bawiach, sef y gair Saesneg emosiynol *vermin*. Yr oedd hi yn wenfflam yn Lloegr, nid yng Nghymru na'r Alban.[54] Sefydlwyd ar hyd a lled Lloegr Glybiau Vermin, a dywedodd un o ddeallusion y Blaid Lafur a ffrind i Aneurin, Harold Laski, fod y cyferiad at fawiach a'r paragraff wedi colli o leiaf ddwy filiwn o bledleisiau i'r Blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol 1950. Ond gwnaeth Bevan waith mawr ei fywyd rhwng Awst 1945 a Gorffennaf 1948. Credai ei ffrind cywir, y Dr Huw T. Edwards, mai 'Cristnogaeth ar Waith' oedd Gwasanaeth Iechyd Aneurin Bevan, sef 'teyrnas Dduw ar y ddaear', meddai wrth ei gyfaill, y bardd Gwilym R. Jones, Dinbych.[55] A theimlai Huw T. Edwards fod Bevan wedi dioddef dan law 'crachod yn cynllwynio i gadw i lawr gawr a'r seren ddisgleiriaf a fflachiodd drwy ffurfafen sosialaidd yn ein byd heddiw.'[56]

Y gwr hwnnw a lwyddodd i greu Gwasanarth Iechyd Cenedlaethol sydd yn dal yn bwysig, fel y dywedodd yr Athro Stephen Hawkins yn y *Guardian*, 17 Awst 2017:

> Y mae pobl yn gwerthfawrogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac yn ymfalchio ein bod yn trin pawb yr un fath. Y mae'r NHS yn tynnu'r gorau allan ohonom. Ni allwn ei golli[57]

Dyna waddol y llanc o Dredegar, Aneurin Bevan (1897-1960). Y tristwch yw na chafodd ond pum mlynedd i arwain adrannau pwysig o'n Llywodraeth.[58] Cofier mai ef oedd y tu ôl i Ddeddf Llywodraeth Leol 1948. Gosododd yn y Ddeddf y cymal a ganiataodd gynghorau yng Nghymru i godi arian i gynnal gweithgarwch diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol.[59] Ond gwelodd ei Lywodraeth, o dan Hugh Gaitskell, yn barod i godi tâl am brescriptiwn, er mwyn cael cyfalaf i ymladd Rhyfel Corea. Er gofid mawr ymddiswyddodd ef a dau arall, Harold Wilson a John Freeman.[60] Ond ar ddiwedd blwyddyn 1959 wynebodd yntau ar driniaeth fawr ei hun, pan oedd cancr ar y stumog. Am y saith mis olaf bu yn dyst ei hun o werth y Gwasanaeth a sefydlodd ac ni allai ddiolch yn ormodol am y gofal a dderbyniodd. Daeth i ben deithio byd ar 5

Gorffennaf 1960 a bu'r arwyl yn Amlosga Croes y Ceiliog a gwasgarwyd yr hyn oedd yn farwol ar y bryniau uwchben Tredegar. [61]

Ysgogwyd nifer ohonom yn y Brifysgol a'r Coleg Diwynyddol yn Aberystwyth i sefydlu cylchgrawn er cof amdano. Bu'r cylchgrawn *Aneurin* yn bwysig am gyfnod a diolchodd Jennie Lee, ei weddw, i ni am y weithred hardd.[62] Nid rhyfedd mai ef, yng ngolwg ni'r Cymry, yw Cymro mwyaf y Canrifoedd yn ôl pob pôl piniwn a drefnwyd hyd yn hyn. Ac i weddill y wlad deil ei enw yn fythol wyrdd am iddo sefydlu Gwasanaeth na fedrwn ni fyw hebddo.[63] Mae llu ohonom ar dir y byw heddiw am iddo gael y weledigaeth a llwyddo i'w gwireddu, er pob rhwystr a beirniadaeth a gwrthwynebiad. Pwysleisiodd ef fod gallu ynom oll i synhwyro yr hyn sy'n gyfiawn ac i newid y drefn pan mae angen. Pwysleisiodd ddysgeidiaeth Morgan Llwyd o Wynedd a'r Crynwyr, sef mai o fewn calon dyn y mae Duw ei hun yn trigo.[64] Dyma'r athroniaeth a bregethai Bevan i werin Rhymni, Tredegar a Glyn Ebwy (ac yn 1945 dywedid bod 80 y cant o boblogaeth Prydain yn perthyn i'r werin bobl). Bu'r proffwyd yn llwyddiannus iawn yn ei gynlluniau i sefydlu Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol sydd bellach yn flaenoriaeth trigolion

Prydain.[65] Braint yw cael dadansoddi a gwerthfawrogi ei gyfraniad gwerthfawr, pell gyrhaeddol yn y ddarlith flynyddol hon.

Nodiadau a Chyfeiriadau

1 Geiriau Aneurin Bevan: 'The most civilised achievement of modern Government.'Gw. Charles Webster, *The National Health Service: A Political History* (Rhydychen, ail argraffiad, 2002), 1.

2 Gwasanaeth Bore Sul, 10 Mehefin 2018 ar Radio Pedwar BBC o Lundain. Clywais y gwasanaeth fy hun.

3 Gwyddai Clement Attlee ei fod ef yn rhoddi yng ngofal Aneurin Bevan yr adran fwyaf o bell ffordd yn Whitehall, cyfrifoldeb aruthrol na roddwyd ar ysgwyddau neb arall yn y Cabinet yn 1945. Gw. Charles Webster, *The National Health Service*, 13.

4 H. Dalton, *The Fateful Years: Memoirs 1931-1945* (Llundain, 1957), 470.

5 Dywedodd Attlee yn ei gyfrol: 'For Health Minister, I choose Aneurin Bevan, whose abilities have up to now been displayed only in opposition, but I felt he had it in him to do a good service.' Gw. Clement Attlee, *As It Happened* (Llundain, 1954), 215.

6 David Marquand, *The Progressive Dilemma: From Lloyd George to Kinnock* (Llundain, 1991), 108.

7 Francis Williams, *Socialist Britain* (Efrog Newydd, 1949), 125.

8 D. Ben Rees, *Cymry Adnabyddus 1952-1972* (Lerpwl a Phontypridd, 1978), 22.

9 Brinley Richards, *History of the Llyfni Valley* (Bontfaen, 1982), 22.

10 Roedd Aneurin Bevan yn falch o fedru dweud bod ei gynllun uchelgeisiol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol wedi ei ysbrydoli gan Gymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar. Gw. 'Gwladwriaeth Les', *Gwyddionadur Cymru yr Academi Gymreig* (Goln. John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur Lynch) (Caerdydd, 2008), 409; P. Gordon-Walker, 'Attlee', yn Lord Longford and J. Wheeler-Bennett (golygyddion), *The History Makers* (Llundain ac Efrog Newydd, 1973), 288-303.

11 J. Graham Jones, 'Evan Davies and Ebbw Vale: A Note', *Llafur*, Cyf. 3, Rhif 7, 93-99.

12 T. Burridge, *Clement Attlee: A Political Biography* (Llundain, 1985), 150; Francis Williams, *A Prime Minister Remembers: The War and Post-War Memoirs of the Rt. Hon. Earl Attlee* (Llundain, 1961), 57.

13 D. Hill (gol.) *Tribune 40*: *The First Forty Years of a Socialist Newspaper* (Llundain, 1977), 4 a 46.

14 Nicklaus Thomas- Symonds, *Nye: The Political Life of Aneurin Bevan* (Llundain, 2015), 134.

15 Marvin Rintala, *Creating the National Health Service: Aneurin Bevan and the Medical Lords*, (Llundain, 2003), 48.

16 John Stewart, 'The "back-room boys of state medicine": David Stark Murray and Bevan's National Health Service', *Journal of Medical Biography*, Volume 4, Number, 4 November, 1996, 229-235.

17 E. D. Jones, 'Sir Daniel Thomas Davies (1899-1966)' *Dictionary of Welsh Biography* 1941-1970 (Llundain, 2001), 29-30.

18 *Ibid*., Horace Evans, Ist Baron Evans of Merthyr Tydfil (1903-63), *Dictionary of Welsh Biography*, 65.

19 Syr Archie Lush, brawd-enaid Aneurin Bevan, ei was priodas, ei asiant gwleidyddol a chadeirydd Bwrdd Ysbytai Cymru yn chwe-degau'r ugeinfed ganrif. Gw. Gwilym Prys Davies, *Cynhaeaf Hanner Canrif: Gwleidyddiaeth Cymreig 1945-2005* (Llandysul, 2008), 180; Nicklaus Thomas-Symonds, *Nye*, 38-40, 46-7, 181.

20 N. Goodman, *Wilson Jameson: Architect of National Health* (Llundain, 1970), 122.

21 F. Honigsbaum, *The Division of British Medicine: A Separation of General Practice From Hospital Care 1911-1968* (Llundain, 1979), 332; W. Herringham, *A Physician in France* (Llundain, 1919), 149.

22 Ond yr oedd Bevan yr un mor amharchus ag oedd Morrison. Aeth mor bell â galw Morrison yn 'witch finder of the Labour Party, the smeller out of evil spirits'. Dro arall galwodd ef yn 'Cockney bach' ac mewn dadl ar wladoli, galwodd Morrison yn 'a fifth rate Tammany Hall boss' yn atgoffa y gwleidyddion a wrandawai o Lywodraeth bwdr a brofwyd yn Chicago ac Efrog Newydd yn y tri degau. Gw. Michael Foot, *Aneurin Bevan,* Cyfrol 1 (Llundain, 1962), 355-6.

23 Roy Jenkins, *Nine Men of Power* (Efrog Newydd, 1974), 74; Kenneth O. Morgan, *Labour People: Leaders and Lieutenants, Hardie to Kinnock* (Rhydychen, 1987), 152, 157. O 1931 ymlaen bu'r ddau fel dau deigr yn ysgyrnygu eu dannedd ar bob amgylchiad. Gw, K. Harris, *Attlee* (Llundain, 1995), 228; Alan Bullock, *Life and Times of Ernest Bevin*, Cyfrol 1, 459, 510, 514; Cyfrol 2 , 286-7.

24 Alan Bullock, *Life and Times of Ernest Bevin,* Cyfrol 1, 834.

25 Harold Wilson, *A Prime Minister on Prime Ministers* (Efrog Newydd, 1977), 291.

26 K. O. Morgan, *Labour People*, 191.

27 Burridge, *Clement Attlee*, 189; Morgan, *Labour People*, 138, 146-7.

28 R. Jackson, *Rebels and Whips: An Analysis of Dissension, Discipline and Cohesion in British Political Parties* (Llundain,1986), 130-1.

29 'Isaac James Hayward (1884-1976)', *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig*, 434 . Ceir llun ohono ar yr un dudalen.

30 R. Brain, *Medicine and Government*, (Llundain, 1967), 4.

31 R. Porter, *The Greatest Benefit to Mankind: A Medical History of Humanity* (Efrog Newydd, 1998), 653. Rhestrodd G. D. H. Cole, deallusyn yn y Blaid Lafur, y sefydliadau y dylid eu gwladoli, ond nid oedd yr ysbytai yn y rhestr. Gw. G. D. H. Cole, *Great Britain in the Post-War World* (Llundain, 1942), 82-91 a 140. Y gwir yw fod y mwyafrif o'r gwleidyddion o bob plaid wleidyddol gan gynnwys y Blaid Lafur wedi cael eu syfrdanu bod Bevan am wladoli'r ysbytai. Gw. S. Grimes, *The British National Health Service: State Intervention in the Medical Marketplace, 1911-1948* (Efrog Newydd, 1991), 136.

32 Ac eto ni chafodd merched o feddygon na gweinyddesau le o gwbl yng nghynlluniau y Gwasanaeth Iechyd. Yn yr holl drafodaethau nid oedd neb o Goleg Brenhinol y Nyrsus, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Royal British Nurses Association yn bresennol. Ofnai y BMA gynnwys Coleg Brenhinol y Nyrsus am fod ganddynt eu barn pendant eu hunain. Gw, E. Grey-Turner and F. Sutherland, *History of the British Medical Association*, Cyf. 2 (Llundain, 1982), 54.

33 S. Grimes, *The British National Health Service,* 136.

34'Y Bedyddwyr Cymraeg, yr Anghydffurfiwr annibynol' oedd y geiriau a ddefnyddiodd Bevan i'w ddisgrifio ei hun pan gyfarfu ag Archesgob Caergaint, Geoffrey Fisher. Gw, Michael Foot, *Aneurin Bevan,* Cyfrol 2 (Efrog Newydd a Llundain, 1974), 127; S. Koss, *Nonconformity in Modern British Politics* (Llundain, 1975), 39. Fel y dywedwyd mor aml , 'Aneurin was very Welsh'. Gwir oedd hynny. Gw. A. Rowse, *Glimpses of the Great* (Ledham, MD, 1985), 67.

35 Gwelai Moran wladoli'r ysbytai fel ffordd o oresgyn y broblem o wahaniaethau rhanbarthol yn safon yr ysbytai. Gw, J. Peter, *The Making of the National Health Service* (Llundain, 1981), 175.

36 M. Horder, *The Little Genius: A Memoir of the First Lord Horder* (Llundain, 1966), 98.

37 Dywedodd Jim Griffiths fod ei ddeddf Yswiriant Cenedlaethol (1946) a'i Ddeddf Anafiadau Diwydiannol (1948 'wedi ei hysbrydoli'n uniongyrchol gan ei brofiad gyda Ffederasiwn Glowyr De Cymru . Gw. 'Gwladwriaeth Les', *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig* , 409. Ef ac Aneurin Bevan oedd dau o benseiri y Wladwriaeth Les.

38 Geoffrey Rivett, *From Cradle to Grave: Fifty Years of the NHS* (Llundain,1998), 30.

39 Aneurin Bevan, *In Place of Fear* (Llundain a Efrog Newydd, 1952), 96. Mae'n bosibl iddo gael ei hudo i gyflawni'r hyn a eilw yn gamgymeriad gan Moran. Gw. *John Campbell and the Mirage of British Socialism* (Llundain, 1986), 168; H. Glennester, *British Social Policy since 1934* (Rhydychen, 1995), 50.

40 John Campbell, *Aneurin Bevan*, 168.

41 R. Lovell, *Churchill's Doctor: A Biography of Lord Moran* (Llundain, 1992), 364. Canlyniad creu gagendor rhwng yr arbenigwyr a meddygon teulu oedd rhwystredigaeth cynyddol. Gw, A. J. Cronin, *The Citadel* (Efrog Newydd, 1962), 101, 192; R. Porter, *The Greatest Benefit to Mankind*, 654.

42 Datganodd Bevan, 'Yn y gwrthdaro rhwng y meddygon a'r cyhoedd, y mae'r olaf am ennill bob tro os cant eu harwain mewn ffordd ddewr. Y mae hawliau (honedig) y meddygon fel grwp cymdeithasol arbennig yn codi gwrychyn y rhan fwyaf o'r boblogaeth.' Gw, Aneurin Bevan, *In Place of Fear*, 93.

43 Cyflwynodd Dr Huw T. Edwards ei hunangofiant difyr a dadlennol, *Tros y Tresi* (Dinbych, 1956) i Arglwydd Cohen o Birkenhead, a 'estynodd fy nyddiau'. Yn ei hunangofiant *A Surgeon's Journey* (Dinbych, 1989) rhydd J. Howell Hughes deyrnged fawr i'r Gwasanaeth Iechyd:

> There is no doubt however that this country has one of the best health services in the world and we are indeed extremely fortunate as compared with many other countries especially those classified as underdeveloped where millions died every year not only of disease that can be controlled and treated but also from poverty and malnutrition, the results of disasters of climate and other environmental conditions.

Daw'r dyfyniad o dudalen 167 o'i hunangofiant lle mae'n adrodd ei gyfraniad clodwiw i ymlid y ddarfodedigaeth o Gymru.

44 Thomas Kilner (1890-1964). Gw R. Battle, 'Thomas Pomfret Kilner', *British Journal of Plastic Surgery,* 17 (1964), 330-334; Syr Francis Avery Jones (1910-1998), Cymro athrylithgar, gw. Richard Doll, 'Sir Francis Avery Jones', *The Independent*, 13 Mai 1998; Syr Thomas Lewis (1881-1945), Cymro arall a'i waith arloesol yn Ysbyty Coleg y Brifysgol Llundain, lle y datblygodd yr electrocardiogram (ECG). Gw. D. M. Krikler, 'Thomas

Lewis, a father of modern cardiology', *Heart* (British Cardiac Society) 77 (2), 102-3; Syr Geoffrey Jefferson o Fanceinion, gw. A. Norman Gulkelch, 'Geoffrey Jefferson (1886- 1961), neurosurgeon, physiologist, philosopher' , *Journal of Neurosugery* Mai 1987, Cyf. 66, Rhif 5, 642-647.

45 Thomas- Symonds, *Nye: The Political Life of Aneurin Bevan,* 148.

46 Michael Portillo, 'The Bevan Legacy', *British Medical Journal*, cyf 317, Rhif 7150 (Gorffennaf 4, 1998), 40. Dyma eiriau ei gyfaill oes, Bryn Roberts, am y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, 'It was certainly the most humane measure of all time-and the most socialistic.' Gw. W.W. Craik, *Bryn Roberts and the National Union of Public Employees* (Llundain, 1955), 149. Lluniwyd y cyflwyniad i'r gyfrol gan Aneurin Bevan ei hun ar dudalennau 5 a 6.

47 Araith Bevan i'r Senedd ar 7 Ebrill 1948. Dywedodd, 'Let all new entrants to practise have the advantage of this assured element of, say, three years. Gw, Nicklaus Thomas-Symonds, *Nye*, .

48 Lord Hill of Luton, 'Aneurin Bevan among the Doctors', *British Medical Journal*, Tachwedd 24, 1973, 468-9.

49 V. Medvei and J. Thornton (goln.), *The Royal Hospital of Saint Bartholomew 1123-1973* (Llundain, 1974), 229; Marvin Rintala, *Creating the National Health Service: Aneurin Bevan and the Medical Lords,* 122.

50 Aneurin Bevan, *The British Medical Journal*, Cyf. 2 , Rhif 5193 (Gorffennaf 16, 1960), 203-4.

51 John M. Lancaster, 'Gwrthryfelwr, Realydd a ' Phoendod Aflan': Hanner Canmlwyddiant Gwasanaeth Iechyd Ceneddlaethol: Rhodd Aneurin Bevan, CENAD, 1998, 104.

52 Marvin Rintala, *Creating the National Health Service*, 138-9

53 Michael Foot, *Aneurin Bevan*, Cyf 1, 237-8 . Ond llefarodd hefyd y brawddegau hyn:

> Y mae llygaid y byd yn troi tuag at Brydain. Bellach y mae arweinyddiaeth foesol y byd yn eiddo i ni ac o fewn rhai blynyddoedd fe gawn bobl yn dod yma fel petaent yn teithio i Fecca fodern, yn dysgu oddi wrthym yn yr ugeinfed ganrif fel y gwnaethant yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Gw, K. Harris, *Attlee,* 424.

54 Jack and Bessie Braddock, *The Braddocks* (Llundain, 1963), 207.

55 Gwyn Jenkins, *Cofiant Huw T. Edwards: 'Prif Weinidog Answyddogol Cymru'* (Talybont, 2007), 22 a 235.

56 *Ibid.*

57 Stephen Hawkings,'How to solve the NHS crisis-scientifically', *The Guardian*, 19 Awst 2017, 35.

58 Marvin Rintala, *Creating the National Health Service*, 58

59 Croesawodd y Brifwyl i'w etholaeth yn 1958. Gw. J. Beverley Smith, 'Pan alwodd Bevan a Robeson heibio', *Barn*, Rhif 572, Medi 2010, 30-1.

60 Ymddiswyddodd y tri o'r Llywodraeth ar 24 Ebrill 1951. Gw, Nicklaus Thomas-Symonds, *Nye*, 191-201.

61 Gw. *Western Mail*, 7 Gorffennaf 1960; *Daily Express,* 7 Gorffennaf 1960 a'r holl gofiannau a gyhoeddwyd hyd yn hyn ar Aneurin Bevan a Jennie Lee.

62 Andrew Edwards, Aneurin: Reinventing Labour :The Voices of a new Generation, Llafur,Cyfrol 9 Rhif 1 (2004) , 71-84.

63 LLGC Papurau Arglwydd Cledwyn o Benrhos. Ffeil E1 Teyrnged i Aneurin Bevan, 20 tudalen a draddodwyd ym Mangor ar 20 Hydref 1961.

64 Gwilym Prys Davies, 'Newid Cyfeiriad: Peiriant Anferth.' Sgwrs Ednyfed Hudson Davies gyda Gwilym Prys Davies, 'Y Gwrandawr' yn *Barn*, Rhif 138, Ebrill 1974, 1.

65 'He was the architect, who did construct one of the greatest British institutions of the twentieth century – the NHS.' Gw. Marvin Rintala*, Creating the National Service*, 5; D.Widgery, *Health in Danger : the Crisis in the National Health Service* (Hamden, CT: 1979), 25; G. Goodman (gol.), *The State of the Nation: The Political Legacy of Aneurin Bevan* (Llundain, 1997), 226.